**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol**

**This response was submitted to the Equality and Social Justice Committee consultation on Women's experiences in the criminal justice system**

**WECJS 09**

**Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Response from: Welsh Local Government Association**

---

23 Medi 2022

# Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol


Rachel Morgan Swyddog Polisi Diogelwch Cymunedol

[redacted]


## Ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
## Profiadau o'r System Cyfiawnder Troseddol: Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol

## Cyflwyniad

1 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru. Y 22 Cynghorau yng Nghymru yw ein aelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

2 Rydym yn credu bod y syniadau sy'n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â'u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni'r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy'n caniatáu i gymunedau ffynnu.

3 Ein prif nod yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

4 Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy

- Hybu rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant o dan arweiniad sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, sy'n hybu mwy o ddemocratiaeth

• Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

5 Mae CLILC yn croesawu’r cyfle i gynnig tystiolaeth i’r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fel rhan o’i ymgynghoriad i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Cefnogir y farn yn yr ymateb hwn gan y Wales Safer Communities Network.

## Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol

6 Mae CLILC yn croesawu ymgynghoriad y Pwyllgor i ganfod safbwyntiau ar brofiadau merched yn y System Cyfiawnder Troseddol (y System). Gall amryw o ffactorau effeithio ar brofiadau o fewn y System - ac mae nifer ohonyn nhw’n cydblethu - yn cynnwys rhywedd. Dengys tystiolaeth fod menywod yn wynebu amryw o faterion sy’n effeithio, ac yn cael eu heffeithio, gan eu profiadau yn y System ac mae’n bwysig fod y rhain yn cael eu hamlygu a’u hymchwilio er mwyn ceisio mynd i’r afael ag unrhyw broblemau a gwella’r canlyniadau ar gyfer menywod a ddaw yn rhan o’r System.

7 Mae’n hysbys fod nifer o fenywod a ddaw i mewn i’r System yn aml wedi cael eu cam-drin; yn dioddef gyda phroblemau iechyd meddwl; a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau. Mae’n bwysig fod y problemau hyn yn cael eu trin - yn ddelfrydol cyn ymgysylltu â’r System ond yn sicr yn ystod unrhyw gyswllt gyda’r System - fel bod troseddwyr benywaidd yn cael eu cefnogi i fynd i’r afael â phroblemau fel hyn ac yn cael eu helpu i dorri’r cylch troseddu.

8 Dim ond 5% o boblogaeth carchardai sy’n fenywod a phan fyddan nhw’n cael dedfryd o garchar, mae’r rhain yn fwy tebygol o fod yn ddedfrydau byr am droseddau di-drais. Yn y gorffennol, mae natur y dedfrydau hyn, ynghyd â diffyg gwasanaethau cefnogi, wedi arwain at gyfraddau uchel o aildroseddu ac mae hynny nid yn unig wedi cael effaith ar fywydau’r merched hyn a’u teuluoedd, ond hefyd y gymuned ehangach.

9 Nid oes Carchar i Fenywod yng Nghymru ac o ganlyniad mae carcharorion benywaidd yn debygol o orfod treulio’u dedfryd yn Lloegr, naill ai yng Ngharchar Styal ger Manceinion neu yng Ngharchar Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw. Mae hyn yn aml yn golygu bod carcharorion benywaidd o Gymru yn treulio’u dedfryd gryn bellter oddi wrth eu teulu a’u cefnogaeth gan eu cymuned ehangach. Gan fod menywod hefyd yn fwy tebygol o fod yn brif ofalwyr, mae rhoi dedfryd mewn carchar i fenywod yn cael mwy o effaith ar blant a theuluoedd, yn y tymor byr a’r tymor hir. Dengys tystiolaeth fod plant i famau sydd wedi cael eu carcharu â risg uwch o ddefnyddio cyffuriau; camddefnyddio alcohol a dod i gysylltiad â’r System Cyfiawnder Troseddol eu hunain yn ddiweddarach yn eu bywydau.

10 Mae’r Gymdeithas yn cefnogi’r farn y dylai cyfiawnder ganolbwyntio ar ymyrraeth gadarnhaol a gweithgareddau ataliol er mwyn cynnig cefnogaeth gynnar i fenywod a merched sydd mewn perygl o droseddu ac aildroseddu fel y gallan nhw osgoi ymgysylltu neu ymwneud eto â’r System Cyfiawnder Troseddol. Yn ogystal â hyn, rydym yn cefnogi’r alwad i gael mwy o ddedfrydau wedi’u lleoli yn y gymuned lle bo hynny’n briodol, cadw menywod allan o’r carchar, a’u cefnogi i adsefydlu fel y gallan nhw ddilyn bywydau cadarnhaol yn eu cymunedau lleol.

11 Nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyd â Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru gan Lywodraeth Cymru yw gwella profiadau a chanlyniadau menywod sydd yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, neu sydd mewn perygl o fod, ac mae CLILC yn cefnogi’r llwybr yr anelir tuag ato, fel yr amlinellir yn y Glasbrint.

12 Mae nifer o feysydd gwaith cadarnhaol a diddorol ar waith fel rhan o’r Glasbrint e.e. mae Strategaeth Cyfiawnder Gogledd Cymru, dan arweiniad Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn ceisio gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi menywod yng Ngogledd Cymru, sydd mewn perygl o droseddu, i gael cyfleoedd a chefnogaeth drwy amrywiaeth ac adsefydlu.

13 Nod Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru Menywod a gyflwynwyd yng Ngwent a De Cymru yw cyrraedd menywod sydd mewn cysylltiad, neu mewn perygl o fod mewn cysylltiad, â’r System Cyfiawnder Troseddol. Drwy werthuso’r Cynllun Braenaru, gwelwyd bod y dull hwn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y menywod dan sylw.

14 Ymhlith y prosiectau cadarnhaol eraill sy’n cael effaith ar y menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol mae cynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghaerdydd, sef llys teulu gwahanol ar gyfer achosion gofal plant. Mae wedi’i lunio’n arbennig er mwyn gweithio gyda rhieni sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae’r Llys yn edrych ar yr achosion mewn ffordd sy’n ceisio datrys problemau, lle bydd atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud gan awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg. Bydd yn ddiddorol gweld sut bydd y cynllun peilot yn datblygu ac a fydd y gwerthusiad yn edrych ar effeithiau rhyw benodol i’w weithrediadau.

15 Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf), mae gan gynghorau lleol ystod o ddyletswyddau i’w cyflawni o safbwynt asesu a chwrdd ag anghenion gofal a chymorth unigolion yn yr ystâd ddiogeledd, yn ddynion ac yn fenywod. O ganlyniad i’r dyletswyddau newydd hyn, mae awdurdodau lleol wedi cyfrannu at sawl dull gwahanol er mwyn diwallu anghenion gofal pobl yn yr ystâd ddiogeledd.

16 Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau a’r cyfrifoldebau sydd eu hangen yn ôl y Ddeddf, mae rhai awdurdodau lleol, fel Pen-y-bont ar Ogwr a Wrecsam wedi sefydlu timau bach penodol sy’n eistedd o fewn y carchar, sy’n cynnwys ystod o staff, gan gynnwys: uwch ymarferydd gwaith cymdeithasol; gweithiwr cymdeithasol; a therapyddion galwedigaethol sy’n cynnal asesiadau a datblygu cynlluniau gofal a chymorth a reolir ar gyfer pobl yn yr ystâd ddiogeledd, yn ogystal â chefnogi gwaith tîm iechyd meddwl o fewn cyrraedd presennol y bwrdd iechyd. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, a mentora cyfoedion a chefnogaeth.

17 I eraill, mae cyfrifoldeb am y dyletswyddau newydd hyn o fewn y timau presennol. Er enghraifft, yn Sir Fynwy mae’r cyfrifoldeb gyda Thîm Gwasanaethau Integredig Sir Fynwy sy’n ffurfio partneriaethau newydd gydag OMS Cenedlaethol a Gwasanaeth Iechyd Carchardai (ABUHB) a datblygu, meithrin/sefydlu dulliau ataliol, creadigol (y ‘Cynllun Cyfeillio’, Ioga, Ymwybyddiaeth Ofalgar, gweithgareddau Dydd, sesiynau cefnogaeth gan gymheiriaid), sy’n cynnwys poblogaeth y carchardai sydd ag anghenion gofal a chymorth.

18 Serch hynny, er gwaethaf y cynnydd a wnaed, mae awdurdodau lleol yn parhau i amlygu meysydd sydd angen gweithredu yn eu cylch, er enghraifft parhad gwasanaethau ataliol a chael mynediad atyn nhw; cryfhau gwasanaethau ataliol amlasiantaeth, yn cynnwys cynnig sefydlogrwydd a chefnogaeth teulu, er enghraifft drwy gynllun Teuluoedd yn Gyntaf ac ymdrin â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod; a pharhau i wella gweithio mewn partneriaeth, e.e. rhwydweithio, cyfathrebu, gweithio ar y cyd lle bo hynny’n briodol.

19 Mae yna amrywiaeth o faterion cymdeithasol ehangach a all effeithio ar fenywod a merched sy’n golygu eu bod yn ymwneud â’r System Cyfiawnder Troseddol. Mae’r rhain yn cynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; tlodi; a diffyg cyfleoedd addysg a chyflogaeth. Mae tai’n fater allweddol sy’n ganolog er mwyn gostwng lefelau aildroseddu ac mae awdurdodau lleol yn parhau i ymrwymo tuag at ddiwallu anghenion tai eu cymunedau. Mae ymdrin â’r materion cymdeithasol yn golygu bod angen i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda’i gilydd, dros y gwasanaethau datganoledig a’r rhai nad ydyn nhw wedi eu datganoli, ac mae’r Glasbrintiau yn helpu gyda hyn.

20 O ran y Ganolfan Adsefydlu i Fenywod, mae’r Gymdeithas yn cefnogi’r datblygiad hwn fel ffordd i alluogi troseddwyr benywaidd i dreulio eu cyfnod yn y carchar yn agosach at eu cartrefi a chefnogi rhwydweithiau, ac er mwyn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth briodol. Credwn y bydd y dull hwn yn cynorthwyo dulliau adsefydlu a lleihau lefelau aildroseddu, gan helpu i greu

cymunedau mwy diogel yn ogystal â chynnig canlyniadau cadarnhaol ar gyfer troseddwyr benywaidd.

21 Nid yw lleoliad y Ganolfan Adsefydlu i Fenywod wedi ei gadarnhau'n derfynol. Bydd ei lleoliad, serch hynny, yn allweddol i'w llwyddiant. Gall lleoliad llety o'r fath yn aml achosi poen meddwl a phryder i gymunedau lleol ac mae'n hanfodol yr ymgynghorir ac yr ymgysylltir yn llawn ag awdurdodau lleol yn y gwaith i'w ddatblygu a'r modd y caiff ei weithredu. Mae'n bwysig hefyd fod unrhyw bryderon sydd gan gymunedau lleol ynghylch dewis lleoliad yn cael eu hystyried a'u trin yn briodol.

22 Yn ogystal â'r materion a amlygwyd uchod, mae'n bwysig ystyried y System Cyfiawnder Troseddol hefyd a sut mae'n ymwneud â menywod fel dioddefwyr. Yn anffodus mae Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gyffredin drwy Gymru gyfan ac mae awdurdodau lleol, gan weithio gyda phartneriaid, wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn. Gall y System Cyfiawnder Troseddol chwarae rhan bwysig i gefnogi menywod sy'n dioddef Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae sefydlu Llys Cam-drin Domestig Arbenigol yn Llys Ynadon Caerdydd yn enghraifft o sut y gall y System Cyfiawnder Troseddol helpu i sicrhau bod anghenion menywod yn cael eu hystyried.

## Casgliad

23 Mae CLILC yn croesawu'r cyfle i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac yn gobeithio y bydd y wybodaeth uchod yn ddefnyddiol.

## Gwybodaeth Cyswllt

Cymedithas Llywodraeth Leol Cymru
1 Canal Parade
Dumballs Road
Caerdydd
CF10 5BF

Rachel.Morgan@wlga.gov.uk

Ysgrifennu'r Pwnc Yma

Dyddiad

Ysgrifennu'r Pwnc Yma

Dyddiad